**BWRDD ADDYSG, SGILIAU A DIWYLLIANT Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 18 RHAGFYR 2019**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer a/ac P.A.Rees

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Thomas a/ac I.Guy

---

1. **PERIODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd P.A.Rees yn cael ei benodi'n Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDD**

Cafwyd datganiad o fudd gan y Cynghorwyr canlynol ar ddechrau'r cyfarfod.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd P.A.Rees | Par: Derbyniadau i Ysgolion Cymunedol 2021/22, am fod ganddo ŵyrion sy'n mynychu ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae ganddo ganiatâd i siarad a phleidleisio. |
| Y Cynghorydd A.R.Lockyer | Par: Derbyniadau i Ysgolion Cymunedol 2021/22, am fod ganddo ŵyrion sy'n mynychu ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae ganddo ganiatâd i siarad a phleidleisio. |

## 3. BLAENRAGLEN WAITH 2018-19

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi’r Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/20.

## 4. DATA RHEOLI PERFFORMIAD CHWARTEROL 2019-2020, PERFFORMIAD CHWARTER 2 (1 EBRILL 2019 - 20 MEDI 2019)

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi’r adroddiad.

## 5. DERBYNIADAU I YSGOLION CYMUNEDOL 2021/22

**Penderfyniad:**

Y dylid cymeradwyo’r Polisi Derbyniadau i Ysgolion Cymunedol 2021/2022 i ymgynghori arno fel y nodir yn Atodiad A i’r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I alluogi’r Cyngor i ddiwallu dyletswyddau statudol a chanllawiau arfer da mewn perthynas â derbyn disgyblion i ysgolion cymunedol.

**Rhoi’r Penderfyniad ar Waith**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghori**

Mae gofyn i’r Cyngor, fel awdurdod lleol, ymgynghori bob blwyddyn ar y trefniadau derbyn i’r ysgolion hynny y mae’n awdurdod derbyn ar eu cyfer fel y nodwyd yn y gofynion ymgynghori a nodwyd yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Cyfrifoldeb y priod gyrff llywodraethu yw derbyniadau i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (h.y. Ysgolion Ffydd).

6. **<u>ADOLYGIAD LLYFRGELLOEDD</u>**

**<u>Penderfyniadau:</u>**

1. Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Trawsnewid i drosglwyddo Pencadlys y Llyfrgelloedd i gyn-Ysgol Ynysmaerdy ar ddyddiad i'w gytuno gyda'r Pennaeth Trawsnewid a'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio.

2. Y dylid datgan bod cyn-Bencadlys y Llyfrgelloedd yn ofer i ofynion y Gyfarwyddiaeth Addysg ac y dylai cyfrifoldeb drosto drosglwyddo i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio.

3. Y dylai Swyddogion ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb i adleoli Llyfrgell Castell-nedd i'r datblygiad newydd arfaethedig yng Nghanol Tref Castell-nedd a chael adroddiad i'r Cynghorwyr ei gymeradwyo os yw'n gynnig derbyniol.

4. Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Trawsnewid i werthu dau gerbyd llyfrgelloedd symudol a chael un cerbyd bach yn eu lle.

5. Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Trawsnewid i brynu fan newydd ar gyfer y Gwasanaeth Cludo i'r Cartref.

6. Y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Trawsnewid i ddiwygio oriau agor y Rhwydwaith Llyfrgelloedd Cangen i'r oriau a nodir yn Atodiad 3 am gyfnod o dri mis.

7. Wedi i'r cyfnod o dri mis ddod i ben, y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Trawsnewid mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet priodol i roi'r newidiadau i oriau agor y Rhwydwaith Canghennau ar waith yn barhaol.

**<u>Rheswm dros y Penderfyniadau:</u>**

I sicrhau bod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu gwasanaeth perthnasol, cost-effeithiol a chynaliadwy i bobl Castell-nedd Port Talbot dros y pum mlynedd nesaf.

**<u>Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:</u>**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

7. **ADRODDIAD SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU**

**Penderfyniadau:**

1. Y dylid nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol.

2. Y dylid cymeradwyo i'r Adroddiad Blynyddol gael ei anfon i Lywodraeth Cymru.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

I alluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **RHAGLEN GWELLA YSGOLION STRATEGOL - CYNNIG I SEFYDIU DARPARIAETH ARBENIGOL AR GYFER DISGYBLION UWCHRADD AG ANHWYLDER Y SBECTRWM AWTISTIG (ASA)**

**Penderfyniadau:**

1. Wedi rhoi sylw dyledus i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a'r asesiadau effaith a risg integredig, y dylid caniatáu cymeradwyaeth yn unol ag Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gyhoeddi'r hysbysiad statudol ynghylch y cynnig i sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion o oedran uwchradd ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gyfun Dŵr y Felin.

2. Dylid cyhoeddi'r hysbysiad ar 7 Ionawr 2020 a fyddai'n caniatáu 28 diwrnod i wrthwynebiadau ddod i law.

3. Mai'r dyddiad rhoi ar waith fydd 20 Ebrill 2020.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

I alluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion hysbysu ffurfiol a osodir ar y Cyngor gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion a deddfwriaeth gysylltiedig. Atodir hysbysiad statudol drafft fel atodiad D i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Bydd rhoi'r cynnig ar waith yn galluogi'r Cyngor i fodloni ei ddyletswydd i sicrhau addysg effeithlon yn ei ardal.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**Penderfyniad:**

Y dylid eithrio'r cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) o Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, oherwydd eu bod yn cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972

10. **ADOLYGIAD PERFFORMIAD CHWE MISOL HAMDDEN CELTIC 2019-20 (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAPH 14)**

Rhoddwyd diweddariad llafar i'r Cynghorwyr gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Hamdden a Diwylliant ar y cyflwyniad diweddar gan Hamdden Celtic ar Berfformiad 2019-20 gan gynnwys yr adolygiad chwe misol.

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

11. **ADOLYGIAD PERFFORMIAD HAMDDEN CELTIC 2018- 19 (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**